ADNODD ADDYSGU

Ein gobaith yw y bydd eich corfflu neu ganolfan, drwy ymgysylltu â Sul yr Hinsawdd, mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â'r mater hollbwysig hwn. Does dim dyddiad penodol ar gyfer Sul yr Hinsawdd felly gellir defnyddio'r adnoddau hyn ar unrhyw Sul o'ch dewis.

Gellir defnyddio'r adnodd hwn fel sail ar gyfer pregeth, astudiaeth Feiblaidd neu sesiwn grŵp bach. Gellir defnyddio'r cwestiynau ar y diwedd i gefnogi myfyrio unigol a thrafodaeth grŵp.

Darn allweddol: Colosiaid 1:15-20

Nodau addysgu

- Gwneud y cysylltiadau rhwng ein cenhadaeth a'r newid yn yr hinsawdd
- Archwilio'r sail Feiblaidd ar gyfer gofalu am y cread
- Ysbrydoli pobl i ymateb yn unigol ac ar y cyd.

I archwilio hyn rydyn ni'n mynd i edrych ar bedwar peth:

- Duw fel creawdwr,
- Duw fel Crist,
- Dduw fel y'i datgelir drwy'r cread, ac
- Ein hymateb i ofalu am y byd

Adnodd ychwanegol

*Edrychwch ar yr adnodd **Syniadau ar gyfer Gweithredu** i nodi ffyrdd y gallwch chi fel corfflu neu ganolfan ymateb yn unigol ac ar y cyd i leihau eich effaith amgylcheddol a chodi llais ar newid yn yr hinsawdd.*

Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

Cyflwyniad

Rydyn ni'n byw mewn cyfnod o argyfwng i'r byd naturiol. Mae newid yn yr hinsawdd yn cyflymu ac mae creaduriaid a phlanhigion yn darfod â bod ar raddfa frawychus[1]. Mae'r cynnydd mewn allyriadau carbon yn achosi i dymheredd godi a chynyddu nifer a dwyster digwyddiadau tywydd eithafol. [2]

Rydyn ni wedi gwybod hyn ers tro, ac er bod cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd, mae llawer mwy y mae angen ei wneud i gyfyngu ar newid yn yr hinsawdd a diogelu bywyd gwyllt. Mae hyn yn rhannol oherwydd gorddefnydd y ddynoliaeth o adnoddau cyfyngedig y byd. Yn gyffredinol, rydym hefyd wedi'n datgysylltu'n fwy o'r byd naturiol a'i rhythmau nag erioed o'r blaen.

Fel Cristnogion, rydyn ni'n dilyn Duw a greodd y byd hwn ac sy'n gofalu'n fawr amdano. Yn y darn hwn gwelwn atseiniau o'r hyn a ddywed Paul yn Effesiaid 1:10 (*Beibl.net*), mai cenhadaeth Duw yw '*ddod â phopeth sy'n bodoli yn y nefoedd ac ar y ddaear at ei gilydd dan yr un pen, sef y Meseia*.'

Y mwyaf y gallwn amgyffred hyn, y mwyaf y gall lywio ein gweithgareddau cenhadol. Yna fel disgyblion a chorff Crist bydd yn ein helpu i ddod â mwy o undod rhwng Duw, ni ein hunain, ein cymunedau a'r cread ehangach.

CREAWDWR

'Cafodd popeth ei greu ganddo fe: popeth yn y nefoedd ac ar y ddaear' Colosiaid 1:16 (*beibl.net*)

'Rhaid cofio bob amser ein bod yn addoli nid yn unig y Duw sy'n Waredwr, ond hefyd y Duw sy'n Greawdwr, sydd wedi creu byd materol sy'n cynnwys anadl bywyd Duw.'

– Ruth Valerio

- Mae'r Salmau yn arbennig yn llawn canmoliaeth i Dduw y creawdwr a'i greadigaeth.
- *'Mae'r Arglwydd yn dda wrth bawb; mae'n dangos tosturi at bopeth mae wedi'i wneud'* (Salm 145:9 *beibl.net*). Dyma'r Duw y mae dynoliaeth i fod i adlewyrchu ei gymeriad.
- Nid dod yn greawdwr ar gontract tymor byr o chwe diwrnod wnaeth Duw, cyn ymgymryd â'i swydd fel llywodraethwr i'w addoli a'i ofni. Mae'n rhan annatod o gymeriad a phresenoldeb digyfnewid Duw.

1 https://www.metoffice.gov.uk/weather/climate-change/effects-of-climate-change
2 https://www.metoffice.gov.uk/weather/climate-change/effects-of-climate-change

Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

- *'Mae llais Duw o fewn natur yn ddi-baid ac yn barhaus. Araith Duw yw'r pwls anweledig sy'n cyfrannu bywiogrwydd yn ddi-baid i bob bodolaeth.'* – Rabbi Jonathan Wittenberg

- Adeiladodd ein Duw, sy'n greawdwr, rythm a chylch yn y greadigaeth. Nid yw'n statig, mae'n tyfu ac yn newid yn barhaus, yn bwydo ac yn cael ei fwydo, yn marw ac yn dod â bywyd newydd.

- Os ydym am brofi llawnder cariad a gras Duw, a helpu eraill i'w brofi hefyd, yna mae angen i ni ddathlu a myfyrio mai Creawdwr yw ein Duw, ac mae'n cynnig y tosturi hwn i'r holl greadigaeth.

- *'Yna dywedodd Duw, "Gadewch i ni wneud pobl yn ddelw ohonon ni'n hunain"'* (Genesis 1:26 *beibl.net*). Mae'r *Neges* yn ei ddisgrifio fel *'adlewyrchu ein natur'*. Os ydym am gymryd hyn o ddifrif, sut ydyn ni'n adlewyrchu natur Duw yn y ffordd yr ydym yn gofalu am y byd o'n cwmpas? Sut mae hyn yn amlwg yn ein gweithgareddau cenhadol fel disgyblion, ac fel eglwys?

'Mae angen ailadeiladu ein perthynas â'n planed er mwyn i ni allu ailadeiladu ein perthynas â'i chrëwr.'

– Ruth Valerio

CRIST

'Roedd yn bodoli o flaen popeth arall, a fe sy'n dal y cwbl gyda'i gilydd' Colosiaid 1:17 (*beibl.net*)

'Dywedodd un o'r Cristnogion cynnar fod tri dimensiwn i'r groes – y fertigol, sy'n ymwneud â chymodi â Duw; y llorweddol, sy'n ymwneud â chymodi â phobl eraill; ac yn olaf mae'r groes wedi'i phlannu'n gadarn yn y ddaear, sy'n ein galw i gymodi â'r greadigaeth.

– Shane Claiborne

- Mae'r darn hwn yn dangos Crist fel y ffynhonnell, y cynhaliwr a'r gwaredwr; daeth i *gymodi* ac *adfer; fe sy'n dal y cwbl gyda'i gilydd* (adn 17).

- Roedd Crist wedi'i wreiddio yn y greadigaeth o'r dechrau, ac ymgorfforodd hynny pan ddaeth i'r Ddaear.

Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

- Mae Iesu'n dangos sylw mawr i'r byd naturiol. Mae ei ddamhegion yn cyfeirio at goed ffigys, llwynogod a blodau. Anogodd y disgyblion i ystyried yr adar a'r blodau (Mathew 6:25–34); ac yn yr anialwch disgrifir Iesu gydag 'anifeiliaid gwyllt o'i gwmpas' (Marc 1:13).

- Doedd e ddim yn ceisio cael arglwyddiaeth dros y byd naturiol. Mewn gwirionedd, fe ddangosodd ffordd wahanol o reoli i'r hyn yr oedd pobl yn ei ddisgwyl. Nid dim ond am ei frenhiniaeth dros ddynoliaeth y mae hyn, ond dros y greadigaeth gyfan.

- Ydyn ni mor gysylltiedig â natur yn ein bywydau modern, yn yr 21ain ganrif, ag yr oedd Iesu? Fel ei ddilynwyr, sut ydyn ni'n dilyn ei esiampl? Sut gallwn ni helpu i gymodi ac adfer ein hinsawdd doredig?

- Rydyn ni'n aml yn meddwl am beth mae'n ei olygu fel Cristnogion i 'godi ein croes a'i ganlyn ef' – sut y gallen ninnau hefyd blannu'r groes hon yn gadarn yn y ddaear, a helpu i gymodi ein hunain â'r greadigaeth hefyd?

CREADIGAETH

'Achos roedd Duw ..... yn cymodi popeth ag e'i hun drwyddo' Colosiaid 1:20 (*beibl.net*)

'Mae'r byd yn cyfathrebu negeseuon pwysig am Dduw i ni ... y greadigaeth yw ei ddewis cyntaf o gyfrwng i ddweud wrthym amdano'i hun.'

– Dave Bookless

- Gwelwn Dduw yn cael ei amlygu yn y greadigaeth mewn cymaint o ffyrdd, yn fawr ac yn fach, yn ddramatig ac yn gynnil, *yn weladwy ac yn anweledig*. Gwelwn dystiolaeth o'i harddwch, ei greadigrwydd a'i amrywiaeth yn y ffordd y dangosir y rhain drwy'r amrywiaeth bywyd *ar y ddaear a'r awyr a'r môr*.

- Yn y greadigaeth gwelwn lasbrint o gynllun cytûn Duw ar gyfer ei Deyrnas – lle gall popeth ddod o hyd i'w le gan fod yn rhyngddibynnol ar y pethau o'i amgylch.

- Rydyn ni hefyd yn gweld y ffordd y gall ein natur ddinistriol amharu ar y cytgord hwn ac effeithio ar ei gydbwysedd. Mae hyn wrth wraidd yr argyfwng hinsawdd presennol.

- Mae ein hysbeilio o adnoddau'r byd yn newid ecosystemau, gan beryglu bywyd dynol a bywyd heb fod yn ddynol.

- Fodd bynnag, gwelwn mai cynllun Duw yw i hyn oll gael ei gymodi ag ef. Mae'r gobaith hwn gennym, ond fel adlewyrchiadau o'i ddelwedd mae angen inni fod yn helpu i sicrhau'r cymodi hwn.

YMATEB - GOFAL

'Dyma'r Arglwydd Dduw yn cymryd y dyn a'i osod yn yr ardd yn Eden, i'w thrin hi a gofalu amdani.' Genesis 2:15 (*beibl.net*)

'Mae'r holl greadigaeth yn aros mewn dyhead dwys ... i blant Duw gael eu datgelu: mewn geiriau eraill, i ddadorchuddio'r bobl hynny sydd wedi eu hachub y bydd eu stiwardiaeth hwy'n golygu bod y greadigaeth o'r diwedd yn cael ei thynnu'n ôl i'r drefn ddoeth honno y cafodd ei gwnaed ar ei chyfer. – NT Wright

- Mae'r tueddiadau presennol yn ein tywys tuag at 3-5 canradd o gynhesu erbyn diwedd y ganrif hon.[3]

- Yng Nghynhadledd Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ym Mharis yn 2015 addawodd gwledydd anelu at gyfyngu cynhesu i 1.5 canradd – ond nid yw'r ymrwymiadau a wnaed i gyflawni hyn yn mynd yn ddigon pell hyd yn hyn.

- Mae'r Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) yn dweud bod cyflawni hyn yn gofyn am 'newidiadau cyflym, pellgyrhaeddol a digynsail ym mhob agwedd ar gymdeithas.'[4]

- Mae angen i ni fod ar y trywydd iawn erbyn 2030, neu bydd mynd dros 1.5C fwy neu lai'n anochel.

- Os ydyn ni am ailgysylltu â Duw, nid yn unig fel gwaredwr ond fel creawdwr, fel ffynhonnell a chynhaliwr *bob peth*, yna mae angen i ni ystyried sut rydyn ni'n trin ein byd naturiol.

- Mae angen i ni adennill y syniad o greadigaeth fel adlewyrchiad o harddwch a mawredd Duw.

- Mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o ail-wreiddio ein hunain yng nghymeriad Duw ac adlewyrchu hyn yn ein gweithredoedd fel dilynwyr Crist ac fel eglwysi.

---

3 https://www.un.org/en/climatechange/science/key-findings
4 https://www.ipcc.ch/2018/10/08/summary-for-policymakers-of-ipcc-special-report-on-global-warming-of-1-5c-approved-by-governments/

Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

'Ni all cenhadaeth Gristnogol eithrio ein cenhadaeth ddynol gysefin, sef arfer rheolaeth dduwiol dros y greadigaeth drwy ei gwasanaethu a'i chadw (Genesis 1:26-28 ynghyd â Genesis 2:15).' – Chris Wright.

CWESTIYNAU

Ar gyfer myfyrio a thrafodaeth bersonol

Gofal Duw dros y greadigaeth

- Pa mor aml ydych chi'n meddwl am Dduw fel creawdwr? Pa enghreifftiau allwch chi feddwl amdanyn nhw sy'n amlygu creadigrwydd Duw? Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am gymeriad Duw? Sut gallwn ni efelychu hyn fel pobl wedi ein 'llunio ar ei ddelwedd'?

- Pryd ydych chi wedi profi presenoldeb Duw o fewn natur? Beth am y lleoliad a ddatgelodd Dduw i chi? Beth wnaethoch chi ei ddarganfod amdano yn y cyfnodau hyn?

- Sut gall gwneud mwy i ofalu am y greadigaeth ein helpu i gysylltu â Duw a dyfnhau ein perthynas ag ef?

- Sut olwg fyddai ar fyd lle mae pob peth yn y nefoedd a'r ddaear yn unedig o dan Grist?

Gofal a chenhadaeth dros y Greadigaeth

- I ba raddau y mae'r gofal dros y greadigaeth yn cyd-fynd â'ch dealltwriaeth o genhadaeth? Ydych chi wastad wedi credu hyn? Os na, beth sydd wedi newid?

- Faint ydych chi'n meddwl y mae pobl sydd ddim yn Gristnogion yn eich cylchoedd yn gweld newid yn yr hinsawdd fel rhywbeth y mae'r Eglwys yn pryderu amdano? Sut gallai hyn gyfyngu ar eu dealltwriaeth o Dduw a'r efengyl?

- Pam ydych chi'n meddwl bod mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn bwysig i Fyddin yr Iachawdwriaeth? Sut mae'n cyd-fynd â'n gwerthoedd a'n credoau?

- *'Ewch i'r gyhoeddi'r newyddion da i bawb drwy'r byd i gyd'* (Marc 16:15 *beibl.net*) – sut byddai angen i ni newid ein syniad o efengylu i wneud hyn?

Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

Eich ymateb

- Sut gallech chi fel Cristion/grŵp/corfflu/canolfan gymryd gofalu am y greadigaeth yn fwy difrifol fel rhan o'ch gweithgareddau cenhadol?

- Mae Byddin yr Iachawdwriaeth bob amser wedi ymdrechu i roi pobl i weithio AC i ofalu amdanyn nhw. Dyma sylfaen Siarter Cabhorse a'n dull o fynd i'r afael â thlodi yma yn y DU ac o gwmpas y byd. Sut gallen ni gymhwyso'r un ethos i'n gofal am y greadigaeth?

- Sut mae gofal Duw am y greadigaeth yn cael ei adlewyrchu yn y ffordd rydyn ni'n edrych ar efengylu, ar fod yn ddisgybl, ar ein hymgysylltiad cymunedol a'n gweithredu cymdeithasol? Beth allai fod angen i ni ei wneud yn wahanol er mwyn ymgorffori hyn?